

---

## Meddwl yn fathemategol mewn ysgolion ME620

---

*Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mawrth*

*Disgrifiad o'r modiwl*

Mae'r modiwl hwn wedi'i gynllunio i helpu myfyrwyr i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o addysgu mathemateg, gyda phwyslais ar Gyfnod Allweddol 3, ac ehangu eu syniadau am y ffordd y mae pobl yn dysgu ac yn defnyddio mathemateg. Nid oes unrhyw esboniad ffurfiol: mae'r asesiad yn seiliedig ar ddau asesiad sydd wedi'u marcio gan diwtoriaid ac asesiad diwedd modiwl. Er mwyn cwblhau'r asesiadau, bydd angen i fyfyrwyr gael mynediad at ddysgwyr mathemateg. Mae myfyrwyr ar y modiwl hwn wedi gweithio gydag amrywiaeth o ddysgwyr o fyfyrwyr Cyfnod Allweddol 2 i oedolion. Mae'r tiwtora yn bennaf ar-lein drwy Adobe Connect.

*Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb person gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- bod yn athro cymwysedig gyda phrofiad eang o ysgolion y DU ac addysg mathemateg y DU
- gwybodaeth eang am addysg mathemateg.

Byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- gradd uwch mewn addysg mathemateg
- papurau cyhoeddedig ar addysg mathemateg
- profiad o gynnal hyfforddiant mathemateg mewn swydd
- diddordeb mewn addysg mathemateg yn rhyngwladol
- profiad o gynnal tiwtorialau ar-lein gan ddefnyddio Adobe Connect.

Gwybodaeth ychwanegol

Gan y bydd gan fyfyrwyr ar y modiwl hwn ddewis i gyflwyno eu haseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) yn electronig drwy'r system eTMA, bydd gofyn i chi farcio a rhoi adborth ar y TMA a gyflwynwyd yn electronig a dychwelyd y gwaith a farciwyd fel ffeil electronig, ar y ffurf ragnodedig, i'r system eTMA. Os cewch eich gwahodd am gyfweiliad, bydd y rhan olaf yn cynnwys ymarfer marcio electronig, rhoddir rhywfaint o ganllawiau ar hyn. Bydd rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael os cewch eich penodi i'r rôl.

*Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan*

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	2
Dull cyflwyno aseiniadau:	1b
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	4
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	5